ColegauCymru
CollegesWales

Yn codi proffil addysg bellach
Raising the profile of further education

newyddion Cymraeg ColegauCymru #172
02 Chwefror 2015

Croeso i e-newyddion ColegauCymru yn y Gymraeg - y diweddariad wythnosol o newyddion colegau addysg bellach Cymru.

Gobeithio y mwynhewch y gwasanaeth newydd!

Rydyn ni wrthi ar hyn o bryd yn diweddaru ac yn mireinio'r bas-data o danysgrifwyr. Ymddiheurwn os ydych wedi derbyn y rhifyn hwn ar gam. Cysylltwch da chi os hoffech dynnu eich enw o'r tanysgrifiad Cymraeg.

Welcome to Welsh language edition of the CollegesWales e-news, the weekly roundup of news from across education colleges in Wales.

We hope you enjoy the new bilingual service!

We are in the process of updating and perfecting our database of subscribers. We apologise if you have received this edition in error. Do please let us know if you would like to remove your name from the Welsh-medium subscription.

Colegau o Ansawdd

Dathlu coleg yn gyflogwr rhagorol

Mae Coleg y Cymoedd wedi derbyn gwobr fawreddog am ei ymroddiad a'i ymrwymiad i greu gweithlu teg a hyblyg. Mae'r coleg, sy'n cyflogi dros 900 o staff ar draws ei bum campws ym Mwrdeistrefi Rhondda Cynon Tâf a Chaerffili, wedi cael ei gydnabod fel 'cyflogwr enghreifftiol' gan yr elusen datblygu economaidd Chwarae Teg.
Mwy>>>

Colegau yn Gweithio â Phartneriaid

Sioe theatr gerdd plant ysgol

Mae dros 100 o blant ysgol yn Llanelli wrthi'n paratoi ar gyfer perfformiad theatr gerdd ym mis Mawrth, gan weithio gyda pherfformwraig o Lundain dan arweiniad tîm diwydiannau creadigol Coleg Sir Gâr.
Mwy>>>

Coleg Sir Gâr i gynnal cystadleuaeth diwydiannau creadigol ledled Cymru

Bydd tîm diwydiannau creadigol Coleg Sir Gâr yn cynnal digwyddiad Cystadleuaeth Sgiliau Cymru mewn Cerddoriaeth Boblogaidd a Delweddau Symudol Fideo ym mis Mawrth.
Mwy>>>

Llongyfarchiadau! Llwyddiant Myfyrwyr

Myfyrwyr coleg yn gosod ei bryd ar Gaergrawnt

Mae Sophie Griffiths, myfyriwr dyniaethau A2 yng Ngholeg Merthyr Tudful, wedi cael cynnig lle yn St John's College, Caergrawnt i astudio Saesneg.
Os bydd hi'n llwyddo, dyma fydd ei hail brofiad o Gaergrawnt, yn dilyn ei phrofiad cyntaf gyda'r cynllun cysgodi yn y brifysgol ym mis Chwefror 2014.
Mwy>>>

Pencampwriaeth Chwe Gwlad: chwaraewyr Coleg y Cymoedd yn sgwad dan 20

Mae tri o ddysgwyr o Goleg y Cymoedd wedi cael eu dewis i fod yn sgwad rygbi Cymru dan 20 ar gyfer Pencampwriaeth y Chwe Gwlad sydd ar ddod. Mae'r tri blaenwr, Liam Belcher, Dillon Lewis a Seb Davies yn hyfforddi gydag Academi Gleision Caerdydd ac fe'u dewiswyd i gynrychioli eu sir ar y tîm dan 20.
Mwy>>>

Cyfleoedd Dysgu

Talent Aardman yn ymweld â stiwdio animeiddio Coleg Ceredigion.

Yn ddiweddar, cafodd myfyrwyr TG Coleg Ceredigion gyfle unigryw i weld un o dalentau creadigol Aardman Animations. Ymwelodd Laurie Sitzia â stiwdio animeiddio newydd, fodern y coleg ar gampws Aberteifi i siarad gyda'r myfyrwyr. Mae gan Laurie bron i 10 mlynedd o brofiad o weithio yn Stiwdios Animeiddio Aardman- cwmni sydd wedi ennill pedair Academy Award.
Mwy>>>

Arddangosfa Gelf ym Mae Caerdydd

Mae myfyrwyr Celf Gradd Sylfaen Coleg Caerdydd a'r Fro wedi trefnu arddangosfa o'u gwaith yn lleoliad celf Bae Caerdydd, Craft in the Bay.
Mae llawer o'r gwaith sy'n cael ei arddangos ar werth ac mae myfyrwyr y flwyddyn gyntaf a'r ail flwyddyn yn marchnata ac yn cynnal yr arddangosfa eu hunain.
Mae'r arddangosfa i'w gweld tan 19 o Fawrth.
Mwy>>>

Prentisiaid Ffrengig mewn ymweld sydyn â Choleg Caerdydd a'r Fro

Daeth grŵp o 43 o brentisiaid awyrofod o Ffrainc i ICAT am wythnos i helpu i wella eu Saesneg technegol.
Mwy>>>

Cofio'r Holocost

Mae myfyrwyr Safon Uwch hanes a'u darlithydd wedi plannu bedwen ar dir Coleg Sir Gâr fel cofeb barhaol i ddioddefwyr a goroeswyr yr Holocost.
Mwy>>>

Arian am Oes: Myfyrwyr brwdfrydig yn cyfarfod AS

Mae chwe thîm o fyfyrwyr o Goleg Gwent yn cystadlu yn yr Her Arian am Oes, sef cynllun gan Lloyds Banking Group sydd â'r bwriad o ysgogi gwell sgiliau rheoli arian mewn cymunedau lleol ar draws y DU.
Mwy>>>

Seren badminton yn ymweld â Choleg Gwent

Croesawodd myfyrwyr Coleg Gwent a disgyblion o Ysgol Gynradd Waun Fawr westai chwaraeon arbennig i'w dosbarth yn ddiweddar.
Mwy>>>

Entrepreneuriaid yn mynychu Bŵtcamp Syniadau Mawr Cymru

Cafodd ddau o fyfyrwyr Coleg Merthyr Tudful y cyfle i gymryd rhan yn Bŵtcamp Syniadau Mawr Cymru ar 30 Ionawr 2015 ymhlith 25 dethol o bob rhan o'r wlad. Mwy>>>

Nodyn ar gyfer y dyddiadur

Myfyrwyr yn llwyfannu sioe wallt broffesiynol

Bydd myfyrwyr trin gwallt o Goleg Sir Gâr yn swyno cynulleidfa o lwyfan Gwesty Parc y Strade gyda sioe trin gwallt broffesiynol cyn hir iawn.
Mwy>>>

ColegauCymru, Uned 7, Cae Gwyrdd, Greenmeadow Springs, Tongwynlais Caerdydd, CF15 7AB
CollegesWales, Unit 7, Cae Gwyrdd, Greenmeadow Springs, Tongwynlais Cardiff, CF15 7AB